



Academi Genedlaethol ar gyfer
Arweinyddiaeth Addysgol Cymru
National Academy for
Educational Leadership Wales



Cydymaith yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru

**Gwahoddiad i wneud cais i fod yn Gydymaith yr Academi Genedlaethol ar gyfer
Arweinyddiaeth Addysgol**



Gwahoddiad i wneud cais i fod yn Gydymaith yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol

Cyflwyniad

Ymrwymiad yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol yw sicrhau bod Cymru'n lle gwych i arweinwyr addysgol ac y byddwn, trwy ledaenu sgiliau arwain rhagorol ledled y system addysg, yn gwireddu uchelgais feiddgar ein cenedl ar gyfer dysgwyr.

Mae datblygu arweinwyr effeithiol yn rhan ganolog o'r daith i ddiwygio addysg yng Nghymru ac mae'n ganolog i'r gwaith rydym yn ei gyflawni drwy ein model Cymdeithion blaenllaw. Mae ein gweledigaeth ar gyfer 2026 yn disgrifio arweinwyr y system fel pobl sy'n hybu hunan-welliant, lle mae gweithwyr proffesiynol yn cydweithio ac yn arwain y tu hwnt i strwythurau sefydliadol, rhwng haenau ac ar draws sectorau.

Er mwyn ein helpu i wireddu'r weledigaeth hon, rydym yn chwilio am uwch arweinwyr effeithiol a dibynadwy o bob rhan o Gymru sy'n gweithio mewn Ysgolion (Penaethiaid Cynorthwyol, Dirprwy Benaethiaid a Phenaethiaid), Gwaith Ieuentid (Uwch Arweinwyr) ac Addysg Bellach, Dysgu seiliedig ar Waith a Dysgu Oedolion yn y Gymuned (Uwch Arweinwyr) i greu'r garfan nesaf o gymdeithion yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol.

Pam ddylwn i ymgeisio?

Mae dros 60 o uwch arweinwyr yn y sector addysg wedi elwa o fod yn Gydymaith yr Academi Arweinyddiaeth ers 2018. Yn ystod eu cyfnod, mae'r cymdeithion wedi cael eu trochi mewn cyfleoedd dysgu proffesiynol o'r ansawdd uchaf sydd ar gael ym mhob rhan o Gymru a thu hwnt.

Bydd ymgeiswyr llwyddiannus eleni yn aelodau o'r chweched garfan o Gymdeithion a byddant yn cymryd rhan mewn profiadau dysgu proffesiynol go iawn a fydd yn eu datblygu fel arweinwyr system gredadwy ac effeithiol, gan arwain y dysgu yn eu lleoliadau eu hunain a thu hwnt.



Fel Cydymaith yn y chweched garfan, byddwch yn mwynhau:

- Profiadau dysgu proffesiynol, preswyl sy'n cynnwys sesiynau dan arweiniad y Cymdeithion presennol, swyddogion y llywodraeth ac arbenigwyr arweinyddiaeth, sy'n canolbwyntio ar sgiliau allweddol ar gyfer arwain system gan gynnwys eiriolaeth, hwyluso, porthgadw, mentora a gwella.
- Cyfleoedd i gwblhau comisiwn gan ganolbwyntio ar un o brif flaenoriaethau taith addysg Cymru.
- Gweminarau gan arweinwyr cydnabyddedig o bob cwr o'r byd, gyda'r cynnwys wedi'i dargedu'n benodol at ffocws eich comisiwn. Mae siaradwyr blaenorol wedi cynnwys: yr Athro Steve Munby CBE, yr Athro Mick Waters, yr Athro Laura McAllister, yr Athro Michael Fullan, yr Athro Ken Muir, yr Athro Mark Priestley, yr Athro Graham Donaldson a Diana Osagie
- Bod yn rhan o'r panel sy'n sicrhau ansawdd darpariaeth datblygu arweinyddiaeth i'r sector addysg yng Nghymru.
- Cyfle i herio a dylanwadu ar bolisiau addysg drwy ymgysylltu ag uwch swyddogion y llywodraeth.
- Mynediad â blaenoriaeth i holl ddigwyddiadau'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol a chyfle i ddatblygu ymhellach eich sgiliau hwyluso trwy arwain grwpiau trafod a hwyluso sesiynau holi ac ateb gydag enwau amlwg o'r byd arweinyddiaeth.



Rôl y Cydymaith:

Datblygu Arweinyddiaeth a Sicrhau Ansawdd

1. Sicrhau Ansawdd

- Bod â rôl weithredol wrth gefnogi sicrwydd ansawdd drwy'r broses gymeradwyo a monitro.

2. Arloesedd

- Ysgogi dulliau newydd ac arloesol o ddatblygu arweinyddiaeth.

3. Arwain System

- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu arweinyddiaeth trwy fod ar weithgorau a phaneli lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.
- Cynrychioli 'llais arweinyddiaeth' o fewn yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol ac ar draws y system addysg.
- Chwarae rhan allweddol yn y gwaith o ddylunio, datblygu a chomisiynu darpariaeth ar gyfer datblygu arweinyddiaeth.
- Gweithio ar feysydd strategol allweddol o welliant ledled y system
- Cefnogi perthynas waith agos rhwng yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol a'r system addysg ehangach, gan sicrhau rhyngwyneb effeithiol rhwng polisi ac ymarfer.
- Sicrhau bod gwaith y Cymdeithion yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru.
- Cefnogi arweinwyr eraill i ymwreiddio a hyrwyddo ystyriaethau i amrywiaeth ethnig a chynhwysaint fel rhan o ddull sefydliad cyfan.
- Chwarae rhan allweddol wrth feithrin gallu a'r gallu i 'arwain system' ledled Cymru a helpu eraill i ddatblygu'r gallu i gefnogi arweinwyr eraill.
- Datblygu gwybodaeth, sgiliau a phrofiad ym maes arwain system drwy seminarau / gweminarau dysgu proffesiynol, cyfarfodydd cyswllt rheolaidd ar gyfer cymdeithion, rhwydweithiau proffesiynol a sgysiau proffesiynol.

4. Datblygu Arweinyddiaeth

- Mynychu a hwyluso'n achlysurol amrywiaeth o gyfleoedd Datblygu Arweinyddiaeth sy'n cyfrannu at alluoedd proffesiynol arweinwyr eraill.



Arweiniad, Dirnadaeth ac Ystyriaeth

5. Adnoddau i arweinwyr addysgol, sy'n seiliedig ar dystiolaeth

- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu adnoddau arweinyddiaeth o safon uchel ac sy'n benodol i Gymru, sy'n cael eu llywio gan y dystiolaeth orau o Gymru ac yn rhyngwladol.

6. Mewnwelediad ar gyfer arweinwyr addysgol a llunwyr polisi

- Cymryd rhan weithredol mewn comisiynau ymchwil ac adolygiadau beirniadol o lenyddiaeth academaidd a pholisïau rhyngwladol

7. Lles arweinwyr addysgol

- Cefnogi'r gwaith o weithredu Strategaeth Cymru gyfan ar gyfer Lles Arweinwyr Addysgol.

8. Datblygu'r Gweithlu Strategol

- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu cynigion strategol i fynd i'r afael â heriau recriwtio a chadw staff

Corfforaethol

9. Cyfathrebu a Marchnata

- Cefnogi datblygiad yr 'Academi Arweinyddiaeth Ddigidol', gan gynhyrchu cynnwys ar gyfer y wefan trwy fideos, blogiau ac astudiaethau achos o brofiadau personol.

10. Rhanddeiliaid a Phartneriaethau

- Mabwysiadu rôl sy'n wynebu tuag allan, gan weithio gydag a thrwy ystod o rwydweithiau i sicrhau bod y sector addysgol cyfan yn teimlo'n gysylltiedig â'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol ac yn deall ei gweledigaeth a'i gwerthoedd.



Ymrwymiad amser

Bydd yr ymrwymiad amser disgwylidig sydd ei angen i gyflawni'r rôl yn amrywio o wythnos i wythnos, yn ôl diddordeb ac arbenigedd y Cydymaith. Mewn egwyddor mae'n cyfateb i 1 diwrnod yr wythnos a bydd yn cynnwys pum profiad dysgu preswyl 2 ddiwrnod, cyfarfodydd bob hanner tymor (2 awr ar-lein), gweminarau misol, cynadleddau a gweithgarwch sicrhau ansawdd blynyddol.

Bwriad y profiadau dysgu proffesiynol yw sicrhau dau brif ganlyniad.

- Bydd yn datblygu'r sgiliau arweinyddiaeth sydd eu hangen i weithredu fel arweinydd system.
- Bydd yn eich arfogi ar gyfer rôl Cydymaith wrth arwain diwygiadau strategol.

Bydd cyfle hefyd i'r Cymdeithion gydweithio ar gomisiynau ymchwil a fydd yn mynd i'r afael â materion o arwyddocâd cenedlaethol ar ran yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol, yn ogystal â rhoi cyfle i chi ddatblygu eich ymholiadau ymchwil eich hun.

Am y cyfnod o ddwy flynedd bydd yr Academi Arweinyddiaeth yn rhoi cyfraniad o £10,000 i'r cyflogwr fel y gall ryddhau'r arweinwyr ar gyfer yr hyn sy'n cyfateb i 1 diwrnod yr wythnos.

Meini Prawf Dethol

Ar gyfer y rownd nesaf hon o Gymdeithion, mae gennym ddiddordeb arbennig mewn penodi uwch arweinwyr o amrywiol leoliadau addysgol ledled Cymru gan gynnwys:

Penaethiaid a Dirprwy Benaethiaid o ysgolion arbennig, Unedau Cyfeirio Disgyblion, ysgolion uwchradd, ysgolion cyfrwng Cymraeg, ysgolion pob oed ac Uwch Arweinwyr o'r sectorau Gwaith Ieuenctid, Addysg Bellach, Dysgu seiliedig ar Waith a Dysgu Oedolion yn y Gymuned.

Mae'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol yn ceisio penodi Cymdeithion o blith grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli gan gynnwys pobl Ddu a Mwyafrif Byd-eang ym mhob sector.

Bydd pob lleoliad addysgol ar gamau gwahanol o'u taith ar gyfer gwella, a gwahoddir pob arweinydd i ystyried pa mor bell y maent yn bodloni'r meini prawf isod a'r arbenigedd a'r profiad penodol y gallant eu cyflwyno i rôl Cydymaith.



Bydd disgwyl i'r Cydymaith llwyddiannus ddangos y canlynol yn ei rôl bresennol a/neu flaenorol:

- Uwch arweinydd presennol mewn sector addysgol gyda phum mlynedd o brofiad o leiaf, fel uwch-arweinydd llwyddiannus.
- Gwybodaeth am Safonau Galwedigaethol a/neu Safonau Proffesiynol priodol ar gyfer cyflawni ac arwain gwelliant ar draws ystod o feysydd mewn lleoliadau cyfredol neu flaenorol, a defnydd ohonynt
- Gweithio cydweithredol a rhwydweithio y tu hwnt i'w lleoliad eu hunain
- Mynd i'r afael â materion ledled y system ar lefel leol, ranbarthol neu genedlaethol
- Sut mae eu hymrwymiad i addysg yng Nghymru yn cael ei ddangos trwy eu harweinyddiaeth
- Diddordeb mewn datblygu arweinyddiaeth a dysgu proffesiynol

Mae rôl y Cydymaith yn cefnogi'r arfer o arwain system, a bydd yn fudd ac yn gyflawniad sylweddol o ran datblygu arweinyddiaeth ar gyfer yr ymgeisydd llwyddiannus gan roi cyfle hefyd i wneud gwahaniaeth ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol.

Bydd y canlynol hefyd yn cael ei ystyried wrth asesu ceisiadau:

- Bydd yr ymgeisydd yn fodel rôl ar gyfer arweinyddiaeth a bydd angen iddo ddangos sgiliau rhyngpersonol ar lefel uchel ynghyd â chyfathrebu effeithiol.
- Bydd yr ymgeisydd yn ymdrin â gwybodaeth gyfrinachol a gwleidyddol sensitif a bydd angen iddo ddangos y gallu i weithio'n effeithiol yn y cyddestun hwn.



Proses Ymgeisio

I'r sawl sydd â diddordeb yn y rôl :

- Mae'n ofynnol iddynt gael eu cais wedi'i gymeradwyo gan Gadeirydd Bwrdd y Llywodraethwyr/y Bwrdd neu Reolwr Llinell
- Dylid sicrhau bod digon o bosibiliadau arwain yn eu lleoliad eu hunain i arweinydd uchelgeisiol allu camu i'r adwy ac arwain tra bod y Cydymaith allan yn gweithio yn y system ehangach.
- Darparu datganiad personol (dim mwy na 1000 o eiriau) sy'n adlewyrchu'r meini prawf dethol ac yn dangos y profiad a'r arbenigedd y gall yr ymgeisydd ei gyfrannu i rôl Cydymaith.

Bydd eich cais yn cael ei asesu gan banel amrywiol a ddewiswyd o blith staff yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol, Cymdeithion presennol, aelodau'r grŵp rhanddeiliaid, aelodau'r bwrdd a sefydliadau partneriaeth.

Bydd yr ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer yn cael eu gwahodd i fynychu cyfweiliad ar 'Zoom/Teams' yn ystod mis Mehefin 2023. Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael eu hysbysu yn ysgrifenedig erbyn 7 Gorffennaf 2023.

Os na fydd ymgeiswyr yn cael eu dewis y tro hwn, bydd cyfleoedd eraill i weithio gyda'r Academi Arweinyddiaeth ac ymgeisio am y rôl eto yn y dyfodol.

Rhaid i'ch datganiad personol gael ei gymeradwyo gan Gadeirydd Bwrdd y Llywodraethwyr/y Bwrdd a neu Reolwr Llinell fel a ganlyn:

'Rwy'n llwyr gefnogi cais i fod yn Gydymaith o Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru a gallaf gadarnhau bod digon o gapasiti arwain yn y sefydliad.'

Mae'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr a all ddangos eu haddasrwydd ar gyfer y rôl yn Gymraeg neu Saesneg.



Sicrhau Ansawdd

Bydd Sicrhau Ansawdd, cefnogaeth ac arweiniad yn rôl y Cydymaith yn cael ei ddarparu gan y Cyfarwyddwr Datblygu Arweinyddiaeth a Sicrhau Ansawdd. Bydd cymdeithion yn cael eu hadolygu bob blwyddyn a chynhelir sgysiau dysgu proffesiynol gyda'r Cyfarwyddwr Datblygu Arweinyddiaeth a Sicrhau Ansawdd.

Terfynu'r rôl

Mae modd i'r unigolyn neu'r Academi Genedlaethol derfynu rôl y Cydymaith unrhyw bryd drwy roi 3 mis o rybudd. Dan amgylchiadau eithriadol mae'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol yn cadw'r hawl i derfynu'r rôl Gydymaith ar unwaith.

Amserlen:

Y broses ymgeisio yn agor.	17 Mawrth 2023
<ul style="list-style-type: none"> • Bydd hysbyseb yn ymddangos ar wefan yr Academi Arweinyddiaeth a sianeli cyfryngau cymdeithasol. • Bydd hysbyseb yn ymddangos ar wefannau rhanddeiliaid / cylchlythyron / sianeli cyfryngau cymdeithasol. • Bydd hysbyseb yn ymddangos ar gylchlythyr LLC a sianeli cyfryngau cymdeithasol 	
Y broses ymgeisio yn cau	12:00 canol dydd 12 Mai 2023
Tynnu rhestr fer	15 Mai – 19 Mai 2023
Cyfweliadau panel dethol Cymdeithion yr Academi Arweinyddiaeth	Mehefin 2023
Hysbysu ymgeiswyr o ganlyniad y panel dethol	7 Gorffennaf 2023
Y rôl Gydymaith yn dechrau.	1 Medi 2023
Sylwer y bydd y cyfnod sefydlu ar gyfer Cymdeithion newydd yn cael ei gynnal wyneb yn wyneb dros 2 ddiwrnod yn ystod mis Medi 2023	21-22 Medi 2023

Croesewir ceisiadau gan ymgeiswyr sy'n gallu dangos eu gallu fel Cydymaith yn Gymraeg neu Saesneg.

I wneud cais, anfonwch eich cais a thystiolaeth ategol at post@agaa.cymru. Am ragor o wybodaeth am yr uchod, cysylltwch â Richard Edwards yn post@agaa.cymru.



Academi Genedlaethol ar gyfer
Arweinyddiaeth Addysgol Cymru
National Academy for
Educational Leadership Wales

agaa.cymru | nael.cymru